## CYMRU SY'N ARWAIN TWF YN NIWYDIANT ADEILADU'R DU AM Y BEDWAREDD FLWYDDYN YN OLYNOL GYDA MWY NA 12,000 O SWYDDI'N CAEL EU RHAGWELD HYD AT 2022.

### CYFRADD TWF:

Mae cyfradd twf gyfartalog flynyddol amcangyfrifedig Cymru, sef 4.6%, yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 1.3%, a dyna'r uchaf yn y DU.

### CREU SWYDDI:

Rhagamcenir y bydd tua 12,250 o swyddi newydd yn cael eu creu erbyn 2022 gyda llawer o alw am beirianwyr sifil, syrfewyr, bricwyr a seiri coed. Rhagamcenir y bydd cyflogaeth yn tyfu 2.1% y flwyddyn ar gyfartaledd, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfradd y DU, sef 0.5%. Rhagwelir y bydd y gweithlu adeiladu yng Nghymru yn cyrraedd bron i 121,500 erbyn 2022. Yn gyffredinol, bydd twf wedi'i ledaenu'n weddol gyfartal ar draws y prif gategorïau galwedigaethol gyda thwf cyson mewn swyddi rheoli a phroffesiynol, yn ogystal ag yn y crefftau.

### PRIF YSGOGWYR TWF/CONTRACTAU:


Y sector seilwaith yw'r prif ysgogwr twf o hyd - 14% y flwyddyn ar gyfartaledd - gyda nifer o brosiectau ynni a thrafnidiaeth yn yr arfaeth gan gynnwys Wylfa Newydd, ffordd liniaru'r M4 a Metro De Cymru. Ymysg y meysydd eraill sy'n rhoi hwb i'r sector yng Nghymru mae'r sector tai preifat a chyhoeddus, gyda Llywodraeth Cymru'n gosod targed o 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2021. O ganlyniad i'r cynnydd mewn allbwn seilwaith, mae strwythur y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn wahanol iawn i gyfartaledd y DU.

### CYFRADD RECRIWTIO BLYNYDDOL (ARR):

Amcangyfrifir bod twf swyddi Cymru yn 2,450 y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n cynrychioli 2.2% o gyflogaeth sylfaen 2018. Hon yw'r gyfradd uchaf o blith yr holl ranbarthau a gwledydd datganoledig, a chyfradd uwch o lawer na chyfradd y DU, sef 1.2%.

### YNG NGHYD-DESTUN Y DU:

Mae CSN yn rhagweld twf O 1.3% yn y DU dros y pum mlynedd nesaf, gyda 158,000 o swyddi i'w creu. Mae twf y DU ychydig yn is na'r 1.7% a ragwelwyd yn 2017, ond roedd y gostyngiad yn ddisgwyliedig ac nid yw mor syfrdanol, wrth gymryd i ystyriaeth bod yr economi wedi arafu yn gyffredinol ac ansicrwydd Brexit.



# TROSOLWG - CYMRU

**Bydd yr ehangu a welir yn cael ei ysgogi yn bennaf gan dwf cryf yn y sector seilwaith, sef tua 14% y flwyddyn ar gyfartaledd. Er mai dechrau'r gwaith o adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa Newydd fydd y prif ffactor sy'n ysgogi twf, bydd y sector hefyd yn elwa ar amrywiaeth o brosiectau ynni a thrafnidiaeth eraill, fel y gwaith i uwchraddio'r M4 a Metro De Cymru. Ar ôl cynnydd o 10% yn 2016, amcangyfrifir bod allbwn adeiladu yng Nghymru wedi tyfu 6% yn fwy yn 2017, i £5.43bn (prisiau 2015). Mae'r twf hwn yn agos at ei lefel yn 2007, ond 4% yn is na'i lefel uchaf yn 2004. Roedd y twf i'w weld yn bennaf yn y sector tai cyhoeddus, y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai a'r sector masnachol, ac yn yr olaf o'r rhain gwelwyd cynnydd dau-ddigid cryf iawn am yr ail flwyddyn yn olynol, er oedd hyn o sail isel iawn.**

Mae llywodraethau, yn San Steffan ac yn y gwledydd datganoledig, yn canolbwyntio'n gynyddol ar wella cyflenwad tai, sy'n golygu bod y rhagolygon ar gyfer tai cyhoeddus a phreifat wedi gwella. Yng Nghymru, targed Llywodraeth Cymru yw 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2021, ac mae nifer o brosiectau adfywio hirdymor naill ai ar y safle neu yn yr arfaeth a ddylai ddarparu allbwn rheolaidd am flynyddoedd i ddod.

I'r gwrthwyneb, mae'r rhagolygon ar gyfer y sectorau nad ydynt yn ymwneud â thai yn wannach, gydag allbwn y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai ond yn cynyddu tua diwedd cyfnod y rhagolwg pan fydd gweithgarwch Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynyddu. Ar ôl dwy flynedd dda iawn, disgwylir i'r sector adeiladu masnachol ddioddef yn sgil gofal buddsoddwyr o ganlyniad i Brexit dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Mae'r twf a ragwelir yng Nghymru wedi gostwng o 6.2%, a ragamcanwyd y llynedd (ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2021), ac mae hyn yn rhannol o ganlyniad i newidiadau yn amseriad rhai prosiectau mawr yn ogystal â cholli un prosiect mawr, sef trydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe. Fodd bynnag, mae ffigyrau twf a chyflogaeth Cymru'n parhau yn gadarn. Yn draddodiadol, mae Cymru yn dioddef all-lifau net uchel o'i gweithlu adeiladu i rannau eraill o'r DU, yn enwedig De-orllewin Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr, ac felly mae'n dueddol o gael cyfradd recriwtio uchel.

**Gellir darllen yr adroddiad llawn yma: www.citb.co.uk/rhwydwaithsgiliauadeiladu**